



## Polisi Gweithdrefnau Hygyrchedd

### **CYFLWYNIAD**

Mae cynnydd mynediad i Addysg ar gyfer disgyblion ag anabledd yn elfen allweddol o gyfrifoldeb statudol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 o ddarparu Cyfle Cyfartal i bawb wrth arfer eu swyddogaethau ac mae cynyddu'r mynediad yn rhan bwysig iawn o ethos ysgol Cilcennin. Felly, mae'n dymuno bod pobl ag anableddau yn gallu cyfranogi'n llawn mewn cymdeithas a byw'n annibynnol ac yn hunangynhaliol yn ariannol.

Nid yw gwneud ysgolion yn fwy hygyrch yn golygu dileu rhwystrau yn unig. Mae'n golygu cynyddu mynediad yn yr ystyr ehangach, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn hollol gyraeddadwy i bob disgybl. Mae tair elfen i'r ddyletswydd cynllunio yn ysgol Cilcennin -

- cynyddu'r graddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol;
- gwella'r modd mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anabledd yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ag anabledd.

### **DIFFINIO ANABLEDD**

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995) yn diffinio unigolyn anabl fel "unigolyn â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar ei allu ef neu hi i gyflawni gweithgareddau bob dydd arferol."

Mae nam corfforol neu feddyliol yn cynnwys namau ar y synhwyrâu (fel y rhai sy'n effeithio ar y golwg a'r clyw) ac anawsterau dysgu. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys rhai cyflyrau meddygol pan fyddant yn cael effaith sylweddol a thymor hir ar fywyd pob dydd yr unigolyn. Mae cyflyrau iechyd meddwl yn gynnwysedig hefyd os ydynt yn afiechydon clinigol cydnabyddedig.

## **CYNLLUNIO**

1. Mae cynllunio yn helpu Ysgolion Mynach, Ponthydfendigaid a Syr John Rhys i wella mynediad ar gyfer disgyblion ag anabledd mewn modd bwriadol a strategol a thrwy hynny alluogi disgyblion ag anabledd i ddatblygu eu llawn botensial yn unol ag egwyddorion Y Wlad sy'n dysgu.
2. Wrth gynllunio anghenion disgyblion a darpar ddisgyblion ag anabledd mae'r ysgolion yn ymwybodol bod gwella mynediad i ddisgyblion ag anabledd yn gallu gwella mynediad i staff, rhieni ac aelodau'r cyhoedd sydd ag anabledd hefyd.

## **GOROLWG O'R DDEDDFWRIAETH SY'N CEFNOGI DISGYBLION AG ANABLEDDAU**

Mae tair prif elfen i'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi disgyblion ag anableddau yn yr ysgol -

- Y fframwaith AAA;
- Dyletswyddau gwahaniaethu ar sail anabledd;
- Dyletswyddau cynllunio.

## **DYLETSWYDDAU GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD**

Ers mis Medi 2002 bu'n anghyfreithlon i'r ysgol wahaniaethu yn erbyn disgyblion ag anabledd yn eu trefniadau ar gyfer derbyn a gwahardd disgyblion ac ar gyfer darparu addysg a gwasanaethau cysylltiedig. Rhaid i ni fel ysgol -

- Beidio â thrin disgyblion ag anableddau yn llai ffafriol na disgyblion eraill;
- Cymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgyblion ag anableddau o dan anfantais sylweddol.

## **CYNLLUN HYGRCHEDD**

- a) Mae'n rhaid cynyddu'r graddau y mae disgyblion ag anableddau yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol.
- b) Mae'n rhaid gwella amgylchedd ffisegol yr ysgol i gynyddu'r graddau y mae disgyblion ag anableddau yn gallu manteisio ar addysg a gwasanaethau cysylltiedig yn yr ysgol.
- c) Gwella'r modd y mae gwybodaeth ysgrifenedig a roddir i ddisgyblion heb anableddau yn cael ei gyflwyno i ddisgyblion ag anableddau.

## **RÔL YR YSGOL**

Mae ysgolion Mynach, Ponrhydfendigaid a Syr John Rhys yn -

1. darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl;
2. cynllunio i gynyddu mynediad at y cwricwlwm i ddisgyblion ag anableddau;
3. ystyried anghenion hyfforddi staff;
4. gwella amgylchedd ffisegol ysgol.

### **GWELLA AMGYLCHEDD FFISEGOL YR YSGOL**

Mae'r elfen hon ar ddyletswydd cynllunio yn ymdrin â gwelliannau i amgylchedd ffisegol yr ysgol a chymhorthion corfforol i gael mynediad i addysg.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cynnwys stepiau, ymylon palmant, arwynebau a phalmentydd allanol, man parcio, mynedfeydd ac allanfeydd mewnol, addurniadau ystafelloedd a dodrefn.

Mae gwelliannau i'r mynediad ffisegol ar hyn o bryd yn cynnwys rampiau, drysau addas, toiledau a golau addas.

### **LLWYDDIANT STRATEGAETH HYGIRCHEDD**

Ni ddylai llwyddiant strategaeth hygyrchedd ganolbwyntio ar gyflawni nodau a thargedau yn unig. Gellid dangos llwyddiant yn ogystal drwy -

- gynydd ym modlonrwydd disgyblion ag anableddau a'u rhieni gyda'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer
- gwelliannau yn hygyrchedd ffisegol adeiladau ysgol
- protocolau a gweithdrefnau clir ar gyfer gweithio'n amlasiantaethol gyda gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion meddygol
- cefnogi cynllunio'n effeithiol i wella mynediad i ddisgyblion anabl
- ysgolion yn yr ardal yn creu cysylltiadau a rhannu arferion da